

**Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru  
(SFWIN 02/2017)**

At:

Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig  
Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch  
dynodedig  
Sefydliadau Preifat sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig  
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr  
UCAS  
Y Brifysgol Agored yng Nghymru  
Grŵp Rhanddeiliaid Cyllid Myfyrwyr Cymru  
UCM Cymru  
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru  
Prifysgolion Cymru  
Colegau Cymru  
a chyrrff eraill sydd â diddordeb

28 Mehefin 2017

Annwyl Gyfaill

**CYMORTH I FYFYRWYR CYMRU: POLISI AR GYFER DYNODI CYRSIAU PENODOL**

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â dynodi cyrsiau addysg uwch penodol er mwyn denu cymorth myfyrwyr statudol gan Lywodraeth Cymru. Mae'n gymwys i ddynodi cyrsiau heb eu dynodi'n barod ac sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2017. Nid yw cyrsiau sydd eisoes wedi'u dynodi'n cael eu heffeithio, ond efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r cyrsiau hyn maes o law.

**YMHOLIADAU**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rheoliadau neu os hoffech wneud sylw am yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn, ysgrifennwch at yr Is-adran Addysg Uwch yn y cyfeiriad isod neu'r cyfeiriad e-bost yma: [DynodiadCwrsAU@cymru.gsi.gov.uk](mailto:DynodiadCwrsAU@cymru.gsi.gov.uk)

## Cymorth i fyfyrwyr Cymru: Polisi ar gyfer Dynodi Cyrsiau Penodol

### Cefndir

1. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â dynodi cyrsiau addysg uwch penodol er mwyn denu cymorth myfyrwyr statudol gan Lywodraeth Cymru. Mae'n gymwys i ddynodi cyrsiau heb eu dynodi'n barod ac sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2017. Nid yw cyrsiau sydd eisoes wedi'u dynodi'n cael eu heffeithio, ond efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r cyrsiau hyn maes o law.
2. Mae'r rheoliadau a wnaed o dan adran 22 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi grantiau neu fenthyciadau i fyfyrwyr cymwys sy'n gysylltiedig â'u presenoldeb ar gyrsiau dynodedig. Gallai myfyrwyr sy'n byw fel arfer yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch fod yn gymwys am gymorth i dalu ffioedd dysgu a chostau byw gan Weinidogion Cymru. Mae'n rhaid i ddarparwyr gael eu cyrsiau wedi'u 'dynodi' fel y gall myfyrwyr gael mynediad at gymorth ariannol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Mae dau lwybr posibl i ddynodi cyrsiau: (i) dynodi awtomatig a (ii) dynodi penodol (h.y. dynodi yn ôl disgrisiwn).

### Dynodi awtomatig

3. Mae cyrsiau addysg uwch (AU) llawn amser a ddarperir gan ddarparwyr a gyllidir yn gyhoeddus cyn hyn wedi'u dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru. O flwyddyn academaidd 2017/18 bydd dynodiad awtomatig cyrsiau addysg uwch llawn amser sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2017 yn gymwys i'r cyrsiau hynny a ddarperir gan sefydliadau 'addysgol cydnabyddedig' yn unig, fel y dynodir yn y rheoliadau cymorth myfyrwyr Cymru<sup>1</sup>. Diffinnir 'sefydliad addysgol cydnabyddedig' fel a ganlyn:
  - (i) sefydliad rheoleiddiedig Cymreig yw sefydliad sy'n meddu ar gynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) o dan adran 7 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 tra bo'r cynllun hwnnw yn parhau mewn grym;
  - (ii) sefydliad rheoleiddiedig Seisnig yw sefydliad sy'n cael ei gynnal neu ei gynorthwyo gan grantiau rheolaidd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE); a
  - (iii) sefydliad sydd wedi'i leoli yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon yw sefydliad sy'n cael ei gynnal neu ei gynorthwyo gan grantiau rheolaidd o gronfeydd cyhoeddus.

---

<sup>1</sup> Rheoliadau Addysg (Cymorth Myfyrwyr) (Cymru) 2017 SI 2017 Rhif.47 (W.21). Mae Rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer dynodi cwrs.

## Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 02/2017)

4. Bydd sefydliad addysgol cydnabyddedig yn gymwys am ddynodi awtomatig o'i gyrsiau addysg uwch llawn amser sy'n bodloni'r amodau a nodir yn rheoliadau cymorth myfyrwyr Cymru <sup>2</sup>. Bydd dynodi awtomatig yn gymwys hefyd i gyrsiau llawn amser a ddarperir gan elusen sydd wedi'i lleoli yng Nghymru a Lloegr ar ran sefydliad rheoleiddiedig Cymreig neu gyrsiau a ddarperir gan sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus sydd wedi'i lleoli yn y Deyrnas Unedig ar ran sefydliad a rheoleiddiedig Seisnig.

Mae'r trefniadau ar gyfer cyrsiau rhan-amser yn wahanol. Un o'r gofynion wrth ddynodi'n awtomatig cwrs rhan-amser yw ei fod yn cael ei ddarparu gan sefydliad sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus yn y Deyrnas Unedig <sup>3</sup>.

Lle nad yw cwrs yn cael ei ddynodi'n awtomatig, bydd angen iddo gael ei ddynodi'n benodol.

5. Anfonwch ymholiadau am ddynodi awtomatig at [hepolicy@cymru.gsi.gov.uk](mailto:hepolicy@cymru.gsi.gov.uk)

### Dynodi penodol

6. Efallai y bydd cyrsiau addysg uwch nad ydynt yn cael eu dynodi'n awtomatig yn cael eu dynodi ar sail cwrs gan Weinidogion Cymru. Dywedir bod y cyrsiau hyn yn cael eu dynodi'n 'benodol' er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt a chyrsiau sy'n cael eu dynodi'n awtomatig.
7. Er bod pob llwybr dynodi yn unigryw, mae Gweinidogion Cymru o'r farn gyffredinol y dylai'r un egwyddorion craidd fod wrth wraidd pob un. Yn benodol, mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y dylai sefydliadau y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi'n awtomatig a darparwyr addysg uwch eraill ddarparu addysg o ansawdd digonol, bod yn ariannol hyfyw a gwneud cyfraniad sylweddol a pharhaus er budd y cyhoedd o ran addysg. (gweler paragraffau 15 – 20).
8. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf y bydd Gweinidogion Cymru yn eu hystyried wrth benderfynu a ydynt am ddynodi cyrsiau'n benodol er diben cymorth myfyrwyr.
9. Mae'n rhaid i geisiadau am ddynodi cyrsiau penodol gael eu gwneud gan y sefydliad sy'n gyfrifol am reolaeth gyffredinol y cwrs o ran ei gynnwys a'i ddarpariaeth. Yn achos cyrsiau breiniol, dylai ceisiadau gael eu gwneud gan y breiniwr yn hytrach na'r sefydliad wedi'i freinio.

---

<sup>2</sup> Mae Rheoliad 5 (1) Rheoliadau Cymorth Myfyrwyr (Cymru) 2017 OS 2017 Rhif. 47 (W 21) yn sefydlu'r amodau sydd angen eu bodloni.

<sup>3</sup> Mae Rheoliad 83 rheoliadau cymorth myfyrwyr Cymru yn nodi'r amodau i'w bodloni mewn perthynas â chyrsiau rhan-amser.

## Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 02/2017)

10. Mewn achos priodol, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried gadael eu safle cyffredinol fel y nodir uchod a pheidio â chymhwyso'r meini prawf a nodir isod. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru yn debygol o fabwysiadu dull o'r fath mewn achosion eithriadol yn unig, a dyletswydd y sefydliad dan sylw fydd rhoi rhesymau da pam y dylai Gweinidogion Cymru weithredu fel hyn.

11. Anfonwch ymholiadau am ddynodi penodol at [DynodiadCwrsAU@cymru.gsi.gov.uk](mailto:DynodiadCwrsAU@cymru.gsi.gov.uk)

### Meini Prawf

12. Bydd pum maen prawf yn cael eu hystyried wrth benderfynu ai dynodi cwrs ai peidio:

- Gellir dynodi'r cwrs.
- Mae'r cwrs yn cael ei ddilysu gan gorff priodol.
- Mae'r darparwr yn gwneud cyfraniad sylweddol a pharhaus er budd y cyhoedd o ran addysg.
- Mae'r ddarpariaeth a gynigir gan y darparwr o ansawdd digonol.
- Mae'r darparwr yn hyfyw yn ariannol.

### Cyrsiau y gellir eu dynodi

13. Gellir dilysu cwrs os yw'n:

- Gwrs gradd gyntaf.
- Cwrs ar gyfer Diploma Addysg Uwch.
- Cwrs ar gyfer y Diploma Cenedlaethol Uwch neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch (a) y Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg; neu (b) Awdurdod Cymwysterau'r Alban.
- Cwrs ar gyfer tystysgrif Addysg Uwch.
- Cwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon.
- Cwrs ar gyfer hyfforddiant pellach gweithwyr cymunedol ac ieuenctid.
- Cwrs i baratoi ar gyfer arholiad proffesiynol o safon uwch nag —
  - arholiad ar lefel uwch ar gyfer Tystysgrif Addysg Gyffredinol neu arholiad ar lefel uwch ar gyfer Tystysgrif Addysg yr Alban, nad yw'n gwrs y mae ei angen ar gyfer mynediad i radd gyntaf (neu gymhwyster cyfwerth) fel arfer; neu
  - arholiad ar gyfer y Dystysgrif Genedlaethol neu'r Diploma Cenedlaethol gan un o'r cyrff a nodir ym mharagraff iii, nad yw'n gwrs er mwyn y mae ei angen ar gyfer mynediad i radd gyntaf (neu gymhwyster cyfwerth) fel arfer
- Cwrs—

## Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 02/2017)

(a) sy'n darparu addysg (wrth baratoi ar gyfer arholiad neu beidio) y mae'r safon yn uwch na'r cyrsiau sy'n darparu addysg sy'n paratoi ar gyfer unrhyw arholiadau a nodir ym mharagraff vii(a) neu (b) ond nad yw'n uwch na chwrs gradd gyntaf; a (b) nad yw'n gwrs y mae ei angen ar gyfer mynediad i radd gyntaf (neu gymhwyster cyfwerth) fel arfer.

Hefyd, mae cyrsiau sy'n arwain at gymhwyster ôl-raddedig yn gallu cael eu dynodi at ddiben darparu Lwfansau Myfyrwyr Anabl i fyfyrwyr cymwys.

Mae'n rhaid i gyrsiau gynnwys o leiaf astudiaeth lawn amser am flwyddyn neu astudiaeth ryngosod neu ei chyfwerth rhan-amser.

### Dilysu

14. Mae'n rhaid i ddarparwyr arddangos bod y cwrs yn cael ei ddilysu gan gorff dyfarnu priodol:

- cwrs sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster gradd gan gorff cydnabyddedig fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Addysg (Cyrrff sy'n cael eu Cydnabod) (Cymru) 2016;
- dyfarnu Diploma Cenedlaethol Uwch neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch gan y Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg; Asiantaeth Cymwysterau'r Alban, neu gorff cydnabyddedig fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Addysg (Cyrrff sy'n cael eu Cydnabod) (Cymru) 2016.

### Cyfraniad er budd y Cyhoedd

15. Mae gan Lywodraeth Cymru adnoddau cyfyngedig ac mae'n rhaid iddi sicrhau ei bod yn cael y gwerth gorau i fyfyrwyr a threthdalwyr. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod buddsoddiad trethdalwyr mewn addysg yn cael ei ail-fuddsoddi cymaint â phosibl gan ddarparwyr er dibenion addysgol, h.y. mewn gweithgareddau sy'n cefnogi mynediad i addysg neu yn ei hyrwyddo, yn cyfrannu at argaeledd addysg neu'n gwella cyfraddau cadw myfyrwyr a chyflogadwyedd graddedigion. I bob diben, mae darparwyr addysg uwch y mae eu cyrsiau wedi'u dynodi ar gyfer cymorth myfyrwyr yn derbyn cymhorthdal gan drethdalwyr drwy'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar ffurf benthyciadau ffioedd dysgu i'r myfyrwyr, yn ogystal â benthyciadau cynhaliadaeth a grantiau.
16. Os oes gan ddarparwr *statws elusenol*, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod hyn yn dangos tystiolaeth o gyfraniad er budd y cyhoedd.
17. Mae'n ofynnol gan Weinidogion Cymru i ymgeiswyr nad ydynt yn elusennau ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad sylweddol a pharhaus er budd y cyhoedd yn gyffredinol ym

**Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru  
(SFWIN 02/2017)**

maes addysg drwy gyflwyno datganiad ysgrifenedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi chwe maes a nodir isod y gall darparwyr addysg uwch ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad sylweddol a pharhaus er budd y cyhoedd.

**Enghreiffiau o Gyfraniad er Budd y Cyhoedd**

**(A) Cyfle cyfartal**

Mesurau i ddenu a chadw myfyrwyr o grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol, darparu cymorth academiaidd a lles i'r rhai hynny o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu ddarpariaeth cynlluniau bwrsariaeth, dim talu ffioedd, ysgoloriaethau neu gyllid caledi.

**(B) Hyrwyddo addysg uwch**

Gweithio gydag ysgolion, colegau a chyrrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gyfathrebu manteision addysg uwch a hyrwyddo diwylliant o ddysgu ac addysg.

**(C) Addysg Gymraeg**

Defnyddio a datblygu addysg cyfrwng Gymraeg a/neu iaith Gymraeg sy'n cefnogi amcanion strategaeth iaith Llywodraeth Cymru gan ddarparwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

**(D) Cyflogadwyedd graddedigion**

Datblygu cyflogadwyedd graddedigion, sy'n ychwanegol i'r ddarpariaeth addysg, gan gynnwys cysylltiadau â chyflogwyr, datblygu sgiliau cyflogadwyedd, effeithlonrwydd, menter neu bersonol, neu leoliadau gwaith.

**(E) Ymgysylltu â'r gymuned**

Ymgysylltu â'r gymuned leol drwy ddarparu mynediad i gyfleusterau, darparu mynediad am ddim neu ratalach i gyrsiau neu ddarlithoedd, neu ddarparu gwasanaeth sy'n rhan ganolog o ddyletswydd ddinesig y sefydliad. Gallai hyn fod i'r cyhoedd neu i grwpiau penodol. Gallai hefyd gynnwys rhaglenni lle mae myfyrwyr yn cael eu cynorthwyo i fod yn weithgar yn eu cymuned leol.

18. Nid yw'r uchod yn rhestr gyflawn - mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan ddarparwyr ystod eang o amcanion ac efallai gallant ddangos cyfraniad ystyrlon er budd y cyhoedd mewn ffyrdd eraill. Gall y datganiad ysgrifenedig gynnwys

## **Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 02/2017)**

enghreifftiau a thystiolaeth drwy gyfeirio at rai neu bob un o'r meysydd uchod nad ydynt yn gwbl gynhwysol ac unrhyw dystiolaeth arall y mae sefydliad yn ei hystyried yn berthnasol.

19. Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried a yw'r wybodaeth a ddarparwyd gan ymgeiswyr yn dangos cyfraniad sylweddol a pharhaus er budd y cyhoedd ym maes addysg. Bydd angen i'r dystiolaeth a ddarperir gan ymgeiswyr ddangos bod y gweithgarwch yn sylweddol ac yn parhaus, e.e. drwy gyfeirio at wariant ar weithgareddau sy'n cyfrannu er budd y cyhoedd mewn cysylltiad ag addysg a hyd y gweithgareddau hynny.
20. Dylai darparwyr nodi bod yn rhaid i gwrs allu bodloni meini prawf eraill ar gyfer eu dynodi cyn y bydd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â chyfraniad sylweddol a pharhaus er budd y cyhoedd yn cael ei ystyried. Ni fydd darpariaeth addysg uwch ar ei phen ei hun yn ddigonol i ddangos bod cyfraniad wedi'i wneud.

### **Ansawdd**

21. Mae'n rhaid i'r cwrs sydd i gael ei ddynodi fod o ansawdd digonol. Bydd yn rhaid i ddarparwyr ddarparu gwybodaeth yn ymwneud ag ansawdd gan y sefydliad neu asiantaeth sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd y cwrs. Dylai ansawdd darpariaeth AU darparwyr gael eu sicrhau gan Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (<http://www.qaa.ac.uk/ên>) neu asiantaeth ar y Gofrestr Sicrhau Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg Uwch (EQAR), a bydd yn ofynnol iddynt gyflwyno tystiolaeth o adolygiad llwyddiannus.

### **Hyfywedd ariannol**

22. Mae'n rhaid i'r darparwr sy'n ceisio cael dynodiad i'w gwrs ddangos ei fod yn gynaliadwy yn ariannol ac y gall myfyrwyr felly fod yn hyderus y bydd y darparwr sy'n gyfrifol am eu cwrs yn parhau'n hyfyw yn ariannol gydol eu hastudiaethau. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr ddarparu gwybodaeth sy'n dangos eu bod yn gweithredu mewn modd sy'n hyfyw yn ariannol. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth fel cyfrifon blynyddol wedi'u harchwilio a rhagolygon ariannol.

### **Cyrsiau ôl-raddedig**

23. Mae cyrsiau sy'n arwain at gymhwyster ôl-raddedig yn gallu cael eu dynodi at ddiben darparu Lwfansau Myfyrwyr Anabl i fyfyrwyr cymwys. Mae'n rhaid i ddarparwyr fodloni'r meini prawf ansawdd a hyfywedd ariannol a ddisgrifir uchod. Mae'n rhaid i'r cwrs gael ei ddilysu gan gorff cydnabyddedig fel y nodir yng Ngorchymyn Addysg (Cyrff sy'n cael eu Cydnabod) (Cymru) 2016. Nid yw'n ofynnol

## **Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 02/2017)**

dangos cyfraniad er budd y cyhoedd gan nad yw Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig. Am wybodaeth am ddynodiad mwy cyffredinol cyrsiau ôl-raddedig, cysylltwch â: [hepolicy@wales.gsi.gov.uk](mailto:hepolicy@wales.gsi.gov.uk)

### **Gwneud Cais**

24. Mae ffurflen gais ynghlwm yn Atodiad A. Dylai darparwyr ei chwblhau a'i dychwelyd gyda'r dystiolaeth angenrheidiol.
25. Mae'r ffurflen gais yn Atodiad A yn rhoi'r manylion sy'n ofynnol i alluogi Llywodraeth Cymru i asesu ceisiadau dynodi cyrsiau penodol. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn asesu ceisiadau anghyflawn a chyfrifoldeb ymgeiswyr yw sicrhau bod eu ceisiadau yn gyflawn. Darparwyr sy'n gyfrifol am gynnwys eu ceisiadau.
26. Mae dynodi yn benodol i'r cwrs a lleoliad ei ddarpariaeth. Mae angen dynodiad ar gyfer pob lleoliad lle cynigir cwrs. Dylai ymgeiswyr nodi bod yn rhaid dynodi pob lleoliad lle mae myfyrwyr sy'n derbyn cymorth yn cael eu haddysgu. Os yw darparwyr wedi derbyn dynodiad ar gyfer lleoliadau penodol ac am ychwanegu lleoliadau ychwanegol wedi hynny, bydd angen iddynt wneud cais ar gyfer y lleoliadau hynny ar wahân. Os yw darparwyr am gael gwared ar leoliad neu ei newid, yna dylent gysylltu â Llywodraeth Cymru am wybodaeth am y broses i'w dilyn os oes amgylchiadau'n newid. Dylid anfon unrhyw ymholiadau at:  
[DynodiadCwrsAU@cymru.gsi.gov.uk](mailto:DynodiadCwrsAU@cymru.gsi.gov.uk)
27. Er y gall ymgeiswyr gyflwyno cais am ddynodi cwrs penodol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, bydd angen iddynt neilltuo digon o amser i'w cais gael ei ystyried cyn dechrau'r cwrs(cyrsiau) dan sylw. Noder y gall y broses ymgeisio gymryd oddeutu tri mis o gyflwyno cais cyflawn i benderfyniad terfynol. Gall yr amserlenni fod yn hirach mewn achosion penodol, e.e. lle darperir gwybodaeth gymhleth/technegol/hirfaith neu wybodaeth anghyflawn neu os nad yw Gweinidogion Cymru am ddynodi cwrs ac yna'r ymgeisydd yn cyflwyno achos. Ni ddylai darparwyr gyhoeddi unrhyw wybodaeth sy'n awgrymu y bydd y cwrs yn derbyn cymorth gan Weinidogion Cymru cyn clywed beth yw canlyniad y cais.
28. Cyfrifoldeb ymgeiswyr yw sicrhau eu bod yn cynllunio eu ceisiadau dynodi cwrs a threfniadau ar gyfer recriwtio myfyrwyr yn brydlon. Bydd hyn yn sicrhau y gall myfyrwyr wneud cais am gymorth myfyrwyr os yw ceisiadau dynodi cwrs yn llwyddiannus, ac yn amodol ar gymhwysedd personol, ei dderbyn mewn pryd cyn dechrau eu cyrsiau.
29. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am wybodaeth a roddir i fyfyrwyr gan ddarparwyr am argaeledd cymorth myfyrwyr. Cyfrifoldeb darparwyr unigol yw rhoi



## Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 02/2017)

gwybodaeth gywir i fyfyrwyr am unrhyw gais am ddynodi cwrs penodol. Yn benodol, dylai darparwyr nodi na allant hysbysebu bod cymorth myfyrwyr ar gael gan Lywodraeth Cymru am gwrs penodol tan i'r cwrs hwnnw gael sêl bendith ei fod yn cael ei ddynodi.

### Asesu a hysbysu

30. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r cais a gwybodaeth ategol (lle'n gymwys ac yn pennu a ydynt am ddynodi ai peidio. Yna, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at y darparwr i'w hysbysu o'r penderfyniad. Os yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu peidio â dynodi cwrs, bydd darparwyr yn cael cynnig y cyfle i gyflwyno achos. Bydd rhesymau'n cael eu rhoi am y penderfyniad.

### Ymchwiliadau

31. Bydd cais gan ddarparwr ar yr adeg y gwneir y cais i ddynodi cwrs yn destun ymchwiliad:

- gan lywodraethau Cymru, y DU, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, gan y corff sy'n gyfrifol am ddilysu ei ddyfarniadau, neu gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr mewn cysylltiad â mater sy'n ymwneud â'i ddarpariaeth addysg uwch;
- gan sefydliad neu asiantaeth sy'n gyfrifol am ansawdd yr addysg uwch a ddarperir;
- gan ei reoleiddiwr elusen; neu
- mewn cysylltiad â throstedd honedig

ac ni fydd yn cael ei gymeradwyo fel arfer cyn i'r ymchwiliad ddod i ben. Gall Gweinidogion Cymru ystyried canlyniad ymchwiliad wrth benderfynu a yw am ddynodi cwrs.

### Tynnu dynodiad yn ôl a gohirio taliadau

32. Gellir tynnu'r dynodiad oddi ar gwrs neu ohirio'r dynodiad os nad yw'r darparwr yn parhau i fodloni'r meini prawf dynodi. Gall Gweinidogion Cymru atal taliadau cymorth myfyrwyr i'r darparwr o dan amgylchiadau fel y rhai a restrir ym mharagraff 31 uchod. Gellir cymryd camau fel hyn mewn achosion lle mae twyll, camddechongli neu gamwedd arall gan ddarparwyr a/neu fyfyrwyr yn destun ymchwiliad neu wedi eu profi.

## Newid mewn amgylchiadau

33. Mae'n ofynnol i ddarparwyr hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar eu gallu i fodloni meini prawf dynodi cwrs penodol. Mae'n rhaid iddynt hefyd roi gwybod am unrhyw newidiadau rheoli neu berchnogaeth. Mae sefydliad yn cael dynodiad yn seiliedig ar y meini prawf a nodir yn y ddogfen bolisi hon. Gall newid rheolaeth neu berchnogaeth newid gallu darparwr i barhau i fodloni'r meini prawf dynodi. Mae hyn yn golygu os oes newid mewn rheolaeth neu berchnogaeth darparwr, yna nid yw'r dynodiad cwrs penodol yn parhau'n awtomatig. Mae'n bwysig bod darparwyr y mae eu cyrsiau wedi'u dynodi gan Weinidogion Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl cyn i gyfryw newid gael ei wneud.

34. Mae'n ofynnol i ddarparwyr hysbysu Llywodraeth Cymru os oes newidiadau'n cael eu gwneud i unrhyw un o'u cyrsiau dynodedig. Mae'r cyfryw newidiadau yn cynnwys mân newidiadau i deitlau cyrsiau nad ydynt yn cael effaith sylweddol ar gynllun neu strwythur y cwrs. Mae'r wybodaeth hon yn angenrheidiol i sicrhau bod rhestr Llywodraeth Cymru o gyrsiau dynodedig yn gywir a bod y wybodaeth a gyflenwir i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr ac i fyfyrwyr am gyrsiau dynodedig yn gywir.

35. Os oes newidiadau'n cael eu gwneud i gyrsiau sy'n arwain at newid sylweddol i:

- gynnwys cwrs
- dull astudio
- hyd y cwrs
- lleoliad darparu'r cwrs
- corff dilysu

yna mae'n debyg y bydd angen cofrestru'r cwrs(cyrsiau) fel cwrs newydd ac efallai y bydd angen dynodiad newydd.

36. Os nad yw darparwyr am ddynodi cwrs penodol mwyach, yna dylent roi gwybod am hyn fel newid amgylchiadau a bydd Llywodraeth Cymru yn cael gwared ar y cwrs hwn oddi ar ei rhestr o gyrsiau dynodedig.

37. Anfonwch unrhyw ymholiadau mewn perthynas â newid amgylchiadau at:

[DynodiadCwrsAU@cymru.gsi.gov.uk](mailto:DynodiadCwrsAU@cymru.gsi.gov.uk)

## **Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 02/2017)**

38. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw wybodaeth sy'n cael ei dal gan Lywodraeth Cymru fod yn destun cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac felly byddai angen ei hystyried ar gyfer ei datgelu. Os yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â chais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fel arfer byddwn yn ymgynghori â'r ceisydd perthnasol i gael ei farn ar unrhyw bryderon sydd ganddo o bosib ynghylch y wybodaeth sy'n cael ei rhyddhau i'r cyhoedd.
39. Er ein hymrwymiaidau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bydd Llywodraeth Cymru ond yn rhannu gwybodaeth o fewn ceisiadau wedi'u cyflwyno gyda'r unigolion a'r sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn angenrheidiol er diben pennu cais, cyhyd ag y gellir cymhwyso dyletswydd hyder i'r wybodaeth. Gall sefydliadau fel hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr, cyrff dilysu a dyfarnu, a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Higher Education Funding Council for England (HEFCE).
40. Efallai y bydd gwybodaeth a gyflenwir gan ymgeiswyr yn cael ei defnyddio i atal a datgelu troseddau o unrhyw natur, gan gynnwys twyll. Rydym yn cadw'r hawl i, neu efallai y byddwn yn gorfod rhoi gwybodaeth o geisiadau a chofnodion cysylltiedig i'r heddlu, asiantaethau datgelu ac atal troseddu eraill, y Swyddfa Gartref, Fisâu a Mewnfudo y DU, y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr, CThEM, Student Awards Agency for Scotland, Llywodraeth Gogledd Iwerddon, yr Adran Addysg, Llywodraeth y DU yn ogystal â byrddau arholi neu gyrff dyfarnu.
41. Bydd gwybodaeth am ddarparwyr y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi'n benodol gan Weinidogion Cymru at ddiben cymorth myfyrwyr ar gael i'r cyhoedd mewn rhestr o gyrsiau a gyhoeddir gan neu ar ran Llywodraeth Cymru.

### **Newidiadau polisi yn y dyfodol**

42. Efallai y bydd darparwyr am nodi bod Gweinidogion Cymru yn ystyried newidiadau i bolisi dynodi ac maent yn cadw'r hawl i newid y polisi hwn heb rybudd neu i adolygu dynodiadau cwrs presennol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar newidiadau posibl yn 2015, ac mae ar gael ar y ddolen isod: <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/>

## Atodiad 1

### Cais i Ddynodi Cwrs Addysg Uwch

#### 1. ENW A CHYFEIRIAD Y DARPARWR

Rhowch fanylion unrhyw enwau masnachu, neu gyn enwau a ddefnyddiwyd gan y darparwr.

#### 2. CYFEIRIAD(AU) LLEOLIADAU ERAILL

#### 3. CYFRANIAD ER BUDD Y CYHOEDD

Oes gan y darparwr statws elusennol? OES / NAC OES

Os 'Oes':

Ydy'r darparwr yn elusen sydd wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau? Os felly, rhowch rif cofrestru'r elusen.

Ydy'r darparwr yn elusen a reoleiddir gan reoleiddiwr heblaw am y Comisiwn Elusennau? Os felly, rhowch fanylion.

Os yw'r elusen yn cael ei hesemptio rhag cofrestru â rheoleiddiwr, rhowch fanylion a chopi o'ch dogfen lywodraethu.

### **3. BUDD Y CYHOEDD (PARHAD)**

Os atebwyd 'Nac Oes', efallai y byddwch am ofyn i Weinidogion Cymru ystyried eich cais a darparu tystiolaeth o gyfraniad sylweddol a pharhaus er budd y cyhoedd. Nodwch yma a fydd Datganiad o Gyfraniad er Budd y Cyhoedd yn cael ei ystyried fel rhan o'ch cais.

Cyflwynwyd **Datganiad Er Budd y Cyhoedd**: DO/ NADDO?

### **4. ANSAWDD**

Darparwch ddolen i'r adroddiad diweddaraf ar ansawdd i'r darparwr gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.

Os nad ydych chi'n gallu darparu dolen i adroddiad gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, eglurwch pam hynny.

### **5. HYFYWEDD ARIANNOL**

Darparwch:

- datganiadau ariannol y tair blynedd diwethaf wedi'u harchwilio'n allanol, neu ddatganiadau ariannol wedi'u harchwilio'n allanol ar gyfer pob blwyddyn fasnachu os nad yw'r darparwr wedi bod yn masnachu am dair blynedd;
- rhagolygon ariannol am y flwyddyn bresennol a'r tair blynedd nesaf, gan gynnwys sylwebaeth ar ragdybiaethau a wnaed mewn rhagolygon a sut y rheolir risgiau ariannol; ac
- unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn berthnasol.

### **6. Y CWRS (CYRSIAU)**

Cwblhewch y Tabl Cwrs amgaeedig ar gyfer pob cwrs rydych chi'n gwneud cais i'w ddynodi.

### **7. CYTUNDEB DILYSU**

Darparwch gopi o'r cytundeb dilysu ar gyfer pob cwrs.

### **8. GWYBODAETH YCHWANEGOL AM Y CWRS**

Os yw cymhwyster yn ennill unrhyw fesur esemptio rhag gofynion arholi sefydliad proffesiynol, darparwch fanylion.

**Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru  
(SFWIN 02/2017)**

Os yw'r cwrs(cyrsiau) a restrir yn y Tabl Cyrsiau wedi'u dynodi yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, rhowch fanylion.

**9. RHAGOR O WYBODAETH**

Rhowch unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cais hwn yn eich tyb chi.

**10. ENW A SWYDD**

Eich enw:

Eich swydd yn y sefydliad:

**11. LLOFNOD A DYDDIAD**

Llofnod:

Dyddiad:

**CYFEIRIAD DYCHWELYD**

Dychwelwch y ffurflen hon i:

[DynodiadCwrsAU@cymru.gsi.gov.uk](mailto:DynodiadCwrsAU@cymru.gsi.gov.uk)

Efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn am ragor o wybodaeth a allai fod yn ofynnol yn rhesymol i asesu cais.

**Cais Dynodi Penodol (Cymru): Darparwr Tabl Cwrs:** Darparwr A

**Cyrsiau Israddedig**

| Enw'r cwrs           | Cymhwyster | Modd presenoldeb | Hyd y cwrs (blwyddyn) | Lleoliad | Dilyswyd/ Dyfarnwyd gan | Gofynion mynediad arferol |
|----------------------|------------|------------------|-----------------------|----------|-------------------------|---------------------------|
| Baglor Diwinyddiaeth | BTh        | Llawn amser      | 3                     |          | Prifysgol B             | 2 Safon Uwch              |
| Baglor Diwinyddiaeth | BTh        | Rhan-amser       | 6                     |          | Prifysgol B             |                           |

**Cyrsiau Ôl-raddedig**

| Enw'r cwrs                               | Cymhwyster | Modd presenoldeb | Hyd y cwrs (blwyddyn) | Lleoliad | Dilyswyd/ Dyfarnwyd gan |
|--|------------|------------------|-----------------------|----------|-------------------------|
| Meistr mewn Diwinyddiaeth (drwy ymchwil) | MTh        | Llawn amser      | 1                     |          | Prifysgol B             |

